
Cyngor Sir Caerfyrddin

MESURAU DROS DRO I'R CYHOEDD GYMRYD RHAN MEWN CYFARFODYDD RHITHWIR YN SGIL COVID 19

Gall aelodau'r cyhoedd weld cyfarfodydd rhithwir Cyngor Sir Caerfyrddin yn fyw ar-lein ar dudalennau Cyngor a Democratiaeth yr Awdurdod ar y [wefan](#).

Yn unol â chyfansoddiad y Cyngor, mae gan y cyhoedd hawliau penodol i annerch cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio ac i ofyn cwestiynau yn ystod cyfarfodydd y Cyngor, y Bwrdd Gweithredol a'r Pwyllgorau Craffu. Gellir gwahodd cyfranogwyr allanol hefyd i fynychu cyfarfodydd y Pwyllgorau Craffu. Nodir yr hawliau hyn yn y rheolau ar brotocolau a gweithdrefnau ar gyfer y cyfarfodydd hyn.


Mae'r [Protocol ar gyfer cyflwyno sylwadau mewn cyfarfodydd ar Geisiadau Cynllunio](#) yn berthnasol i gyfarfodydd a gynhelir o bell, yn unol â'r protocol mae unrhyw sylwadau wedi'u cyfyngu i uchafswm o 5 munud yr un.

Dylech nodi bod cyfarfodydd y Cyngor yn cael eu ffilmio i'w darlledu'n fyw neu ar ôl i'r cyfarfod orffen, a hynny drwy wefan y Cyngor. Trwy dderbyn y gwahoddiad i'r cyfarfod, byddwch yn caniatáu i gael eich ffilmio ac i luniau a recordiadau sain gael eu defnyddio fel yr amlinellir uchod.

Cyfarwyddiadau ar gyfer cyfarfod â chyfranogwyr:

Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn defnyddio Microsoft Teams fel ei blatfform ar gyfer cyfarfodydd rhithwir. Gallwch lawrlwytho Microsoft Teams o wefan Microsoft, Apple App Store neu Google Play.

Os byddwch yn ymuno drwy fideo-gynadledda mae'r botymau y bydd angen i chi eu defnyddio ar gael ar y sgrin:-



Nodiadau:

Diweddarwyd 24 Mehefin 2020

Sylwch fod gweithdrefnau ar wahân ar gyfer y Pwyllgor Trwyddedu a'r Is-bwyllgorau Trwyddedu.

Gallwch fynychu cyfarfodydd o bell drwy un o'r 3 opsiwn canlynol:-

- drwy gyfrifiadur, gliniadur neu ddyfais glyfar arall sydd â chysylltiad â'r rhyngwrwyd, gan gymryd rhan drwy gyswllt fideo (darperir manylion/cyfarwyddiadau mynediad i'r platfform rhithwir gan y Gwesteivr drwy e-bost neu dros y ffôn cyn y cyfarfod). Bydd angen i chi lawrlwytho'r ap Teams a rhoi eich enw llawn fel defnyddiwr gwadd. Byddwch yn gallu clywed y drafodaeth, a gweld a chael eich gweld gan y cynghorwyr, siaradwyr a sylwedyddion eraill, megis aelodau'r cyhoedd a'r wasg, os na fydd ymyriadau/anawsterau o ran y dechnoleg; neu
- dros y ffôn (caiff cyfarwyddiadau/manylion mynediad i'r platfform rhithwir eu darparu gan y gwesteivr, dros y ffôn neu drwy e-bost, cyn y cyfarfod); neu
- os nad oes gennych y naill na'r llall o'r dulliau mynediad y cyfeirir atynt uchod neu os oes gennych anableded sy'n ei gwneud yn anodd i chi ddefnyddio'r gwasanaeth siarad cyhoeddus, bydd eich sylwadau ysgrifenedig yn cael eu hystyried gan y Cadeirydd yn ystod rhan berthnasol y cyfarfod.

Sylwer:- Y cynllun wrth gefn petai anawsterau technegol yn codi yw bod y cwestiwn neu'r sylwadau ysgrifenedig gan y cyhoedd a gyflwynwyd yn flaenrol yn cael eu cyflwyno i'r cyfarfod ar eich rhan gan y Cadeirydd.

O leiaf 48 awr cyn y cyfarfod, os byddwch wedi cofrestru ac wedi cael gwybod y gallwch gyflwyno sylwadau yn ystod y cyfarfod, byddwch yn cael cyfarwyddiadau mynediad. Bydd y cyfarwyddiadau hyn naill ai'n cyfateb i ddolen "Cyfarfod Microsoft Teams" a ddarperir drwy e-bost neu'n rif ffôn uniongyrchol (mynediad dros y ffôn yn unig) a ddarperir dros y ffôn.

Sylwer: Dylech glicio'r ddolen i'r cyfarfod o leiaf 10 munud cyn dechrau'r cyfarfod a byddwch yn cael eich rhoi mewn lobi rithwir cyn cael eich gwahodd i ymuno â'r cyfarfod.

Ar ôl i chi orffen siarad, ni chaniateir unrhyw ddatganiadau pellach ac ni fydd gennych unrhyw hawliau ychwanegol i annerch y cyfarfod, oni bai bod cwestiwn yn cael ei roi yn uniongyrchol i chi. Gallwch barhau i arsylwi'r cyfarfod drwy blatfform Teams cyhyd â bod y cyfarfod yn parhau yn sesiwn gyhoeddus agored.

At ddibenion eglurhad, darperir y trefniadau ymuno fel a ganlyn: --

- Cwestiynau gan y cyhoedd i'r Cyngor, y Bwrdd Gweithredol neu'r Pwyllgorau Craffu – bydd trefniadau mynediad yn cael eu darparu gan y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.
- Ceisiadau i siarad yn ystod y Pwyllgor Cynllunio - bydd yr Is-adran Gynllunio yn darparu trefniadau mynediad ar ôl i'ch cais i siarad gael ei gymeradwyo.

Bydd Swyddog Gwasanaethau Democrataidd yn gweithredu fel 'Gwesteivr' a fydd yn eich galw i mewn i'r cyfarfod cyn i'r cyfarfod ddechrau. Bydd eich meicroffon yn cael ei dewi hyd nes i chi gael eich galw i siarad gan y Cadeirydd. Mae'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd yn cadw'r hawl i dewi eich meicroffon ar ôl i chi ofyn eich cwestiwn/cyflwyno eich sylwadau.

Nodiadau:

Diweddarwyd 24 Mehefin 2020

Sylwch fod gweithdrefnau ar wahân ar gyfer y Pwyllgor Trwyddedu a'r Is-bwyllgorau Trwyddedu.

Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i ddiogelu cyfarfod drwy gyfrinair, 'cloi', cyfyngu neu amrywio mynediad i gyfarfod ar ôl iddo ddechrau ac er mwyn sicrhau bod y rhai sy'n ymuno â'r cyfarfod yn westeion dilys. Fel arfer bydd y Cyngor yn tewi cyfranogwyr sy'n tarfu ar y cyfarfod er gall y Cadeirydd alw am atal cyfarfod ar unrhyw adeg os yw'n barnu bod angen gwneud hynny er mwyn cynnal trefn.

Ar ôl i'r cyfarfod ddechrau bydd y Cadeirydd, fel rhan o'i gyflwyniad, yn egluro'r weithdrefn er mwyn i chi gymryd rhan a fydd yn adlewyrchu'r elfennau perthnasol uchod. Mae'n rhaid i chi lynu wrth y weithdrefn hon.

Bydd y Cadeirydd yn eich gwahodd i siarad ar adegau priodol. Bydd eich microffon yn cael ei dewi gan y Gwesteivr hyd nes i chi gael eich gwahodd gan y Cadeirydd i siarad. Bydd eich camera yn fyw oni bai eich bod yn dewis ei ddiffodd. Ar ôl i chi orffen siarad cofiwch ddiffodd eich microffon a'ch camera.

Os cewch anawsterau technegol yn ystod y cyfarfod, ffoniwch 01267 224028 i gael cymorth.

Os bydd angen gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg arnoch, gallwch weld rhif ffôn y gwasanaeth hwn ar dudalen flaen yr agenda neu ar dudalen y gwe-ddarllediad ar gyfer y cyfarfod. (Cysylltwch â'ch darparwr gwasanaeth i gadarnhau costau galwadau)

Rheolau Cyffredinol ar gyfer Cyfarfodydd:

Mae'r cyfarfod yn agored i'r cyhoedd neu'n cael ei we-ddarlledu felly mae'n bwysig eich bod yn ymddwyn yn yr un modd a fydddech fel arfer mewn unrhyw gyfarfod cyhoeddus.

Sicrhewch fod eich offer TG wedi'u gwefru'n llawn neu wedi'u cysylltu â soced prif gyflenwad trydan gan fod cyfarfodydd o bell yn gallu defnyddio llawer o fatri.

Gwnewch yn siŵr bod eich ffôn symudol wedi'i ddiffodd neu mewn cyflwr tawel.

Ystyriwch eich cefndir, gwiriwch beth y gall pobl ei weld y tu ôl i chi ac o'ch blaen. Cofiwch pan fyddwch ar y camera gall pawb weld eich amgylchedd, ceisiwch sicrhau eich bod mewn ystafell ar eich pen eich hun heb unrhyw beth i dynnu eich sylw (h.y. bydd modd gweld aelodau o'r teulu neu anifeiliaid anwes yn y cefndir). Os yw'n bosibl, trefnwch gefndir disylw.

Siaradwch yn glir, a byddwch yn gwrtais, ni ddylech siarad dros y siaradwr na thorri ar ei draws. Unwaith eto, mae'r Gwesteivr yn cadw'r hawl i dewi eich microffon os byddwch yn torri ar draws siaradwr arall.

Os na allwch fynychu'r cyfarfod neu os na fydd y ddolen fideo/sain yn gweithio yn ystod y cyfarfod, bydd y cyfarfod yn cymryd i ystyriaeth eich cwestiwn/neu'ch datganiad ysgrifenedig blaenorol ac yn mynd ymlaen i wneud ei benderfyniad neu bydd yn rhoi ateb ysgrifenedig i chi os y gwnaethoch gais i ofyn cwestiwn cyhoeddus

Nodiadau:

Diweddarwyd 24 Mehefin 2020

Sylwch fod gweithdrefnau ar wahân ar gyfer y Pwyllgor Trwyddedu a'r Is-bwyllgorau Trwyddedu.